

Mari Lovgreen



Enw: Mari Lovgreen

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Geni – Bangor; Magu - Caernarfon

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Hugh Owen

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Caru unrhyw waith creadigol, chwaraeon a perfformio ond ddim yn grêt am mathemateg a ffiseg!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Athrawes neu weithiwr cymdeithasol

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Sothach a Sgylfath gan Angharad Tomos, a *The Story of Tracy Beaker* gan Jacqueline Wilson

Beth yw eich diddordebau? Mynd am bryd o fwyd efo teulu a ffrindiau, canu, reidio beic, darllen, cysgu

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Cysgu a chwerthin efo ffrindiau a theulu

Beth sy'n eich gwylltio chi? Dim digon o gwsg

O ble rydych chi'n

cael eich syniadau?

Dwi'n mwynhau ysgrifennu pethau doniol i blant. Gan fod gen i ddau blentyn fy hun sy'n 5 a 7, dwi'n dychmygu be fysa'n gwneud iddyn nhw chwerthin.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Mae fy hiwmor i'n reit blentynnaidd deud y gwir!! Mae hiwmor a gonestrwydd yn ddau beth pwysig iawn i mi.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau ydi creu rhywbeth sy'n llwyddo i gael ymateb positif gan y darllenwyr. Ac mae'n ddihangfa – mae unrhyw beth yn bosib wrth ysgrifennu! Y peth gwaethaf yw'r dyddiau lle di'r awydd/awen ddim yn ffrind



Cwestiynau Cyflym:

Hoff lyfr o'ch ieuenctid?

Cysgod y Cryman

Hoff gymeriad o lyfr?

Tracy Beaker

Hoff le? Caernarfon

Hoff fwyd? Brechdan Fish fingers

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Titanic a Dim Byd

Hoff air? Cwsg

Superpower o ddewis? Gallu hedfan

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Instagram

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Teimlo'r haul ar fy wyneb ar ôl gaeaf oer iawn

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol? Actores comedi

Top tip i ddarpar awduron:

Edwch amdani! Does dim ffasiwn beth a syniad anghywir!